

Rhyddhad Ardrethi'r Stryd Fawr a Manwerthu yng Nghymru 2020/21

Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid grant i barhau â Chynllun Rhyddhad Ardrethi'r Stryd Fawr a Manwerthu i dalwyr ardrethi sy'n gymwys ar gyfer 2020-21. Nod y cynllun sydd wedi ei wella yw darparu cymorth i fusnesau manwerthu cymwys drwy gynnig gostyngiad o hyd at £2,500 ar y bil ardrethi annomestig i bob eiddo, a hynny ar gyfer manwerthwyr cymwys sy'n defnyddio eiddo â gwerth ardrethol o £50,000 neu lai yn ystod blwyddyn ariannol 2020-21, yn ddarostyngedig i derfynau Cymorth Gwladwriaethol.

Os oes gennych hawl i'r rhyddhad hwn, credydwyd eich cyfrif gyda'r swm cymwys (gweler isod). Os ydych chi'n credu bod gennych hawl ac nad ydych wedi cael eich dyfarnu, cysylltwch â Thîm Treth y Cyngor ar 01633 644630 neu e-bostiwch counciltax@monmouthshire.gov.uk.

Symiau Cymwys:

Yr eiddo a fydd yn gallu manteisio ar y rhyddhad hwn fydd eiddo busnes a manwerthu ar y stryd fawr sy'n cael ei ddefnyddio fel siopau, bwytai, caffis a thafarnau, ac sydd â gwerth ardrethol o £50,000 neu lai ar 1 Ebrill 2020.

Dylid caniatáu rhyddhad i fusnesau fel taliad untro ar sail meddiant ar 31 Mawrth 2020 (ar yr amod bod yr un meddiannwr yn parhau i fod mewn meddiant ar 1 Ebrill 2020). Rydym yn cydnabod y gall rhai achosion godi pan fo awdurdod lleol yn cael ei ôl-hysbysu'n ddiweddarach am newid meddiant. Mewn achosion o'r fath, os yw'n glir mai'r meddiannwr oedd yn yr eiddo ar 1 Ebrill 2020, gall yr awdurdod lleol ddefnyddio disgresiwn wrth ddyfarnu rhyddhad.

Lefel uwch o gymorth: hyd at £2,500

Y talwyr ardrethi cymwys fydd y manwerthwyr ar y stryd fawr sydd ag eiddo â gwerth ardrethol rhwng £6,001 a £50,000 ar 1 Ebrill 2020. Disgwylir y bydd manwerthwyr â gwerth ardrethol o £6,000 neu lai yn cael Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach llawn, fodd bynnag mater i'r awdurdodau lleol fydd penderfynu a oes eiddo nad ydynt yn cael Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach a ddylai fod yn gymwys ar gyfer y rhyddhad hwn.

Yn wahanol i'r blynyddoedd blaenorol, nid yw cynllun 2020-21 wedi'i gyfyngu i eiddo ar y stryd fawr, ond bydd yn cynnwys yr holl eiddo yng Nghymru sy'n bodloni'r meini prawf ehangach o ran manwerthu.

Mae busnesau HEB fod â hawl i'r rhyddhad Stryd Fawr wedi'i dargedu yn cynnwys:

- *Safleoedd gyda gwerth trethiannol o fwy na £50,000*
- *Safleoedd heb fod yn rhesymol hygyrch i'r cyhoedd*
- *Safleoedd na chaiff eu defnyddio*
- *Rhai sy'n derbyn rhyddhad ardrethi elusenol gorfodol*

Hereditamentau sy'n cael eu defnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf i ddarparu'r gwasanaethau canlynol i aelodau o'r cyhoedd sy'n ymweld â nhw

- *Gwasanaethau ariannol (ee banciau, cymdeithasau adeiladu, peiriannau arian parod, bureaux de change, benthydwyr diwrnod cyflog, siopau betio, gwystlyddion)*
- *Gwasanaethau meddygol (ee milfeddygon, deintyddion, meddygon, osteopathiaid, ceiropractyddion)*
- *Gwasanaethau proffesiynol (ee cyfreithwyr, cyfrifwyr, asiantaethau yswiriant, ymgynghorwyr ariannol, tiwtoriaid)*
- *Swyddfa ddsbarthu Swyddfa'r Post*
- *Llety twristiaeth, ee Gwely a Brecwast, gwestau a pharciau carafanau*
- *Clybiau chwaraeon*
- *Canolfannau chwarae plant*
- *Meithrinfeydd dydd*
- *Canolfannau gweithgareddau awyr agored*
- *Campfeydd*
- *Llety cŵn a chathod*
- *Cartrefi arddangos ac ystafelloedd marchnata*
- *Asiantaethau cyflogaeth*